

# **Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent**

## **Hysbysiad Preifatrwydd**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthy ch chi pa fanylion personol rydym yn eu casglu, yr hyn rydym yn ei wneud â'ch gwybodaeth, pwy y gallwn rannu'r wybodaeth â nhw a pham, a'ch hawliau dros y wybodaeth rydych wedi ei rhoi i ni.

### **Pwy ydym ni**

Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent (Swyddfa'r Comisiynydd) yn rhoi cymorth i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau (y Comisiynydd) gyflawni ei ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n cynnwys dal Prif Gwnstabl Gwent i gyfrif am gyflawni plismona lleol, pennu a diweddarau cynllun heddlu a throseddau, pennu'r gyllideb a'r praesept ac ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau yng Ngwent.

Swyddfa'r Comisiynydd yw'r rheolwr data ar gyfer y wybodaeth personol rydym yn ei phrosesu, oni bai y nodir yn wahanol.

Gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd

Trwy e-bost: [Commissioner@gwent.pnn.police.uk](mailto:Commissioner@gwent.pnn.police.uk)

Ar y ffôn: 01633 642200

Trwy'r post: Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent  
Pencadlys yr Heddlu  
Heol Tyrpeg  
Croesyceiliog  
Cwmbrân  
NP44 2XJ

Y Swyddog Diogelu Data yw Joanne Regan. Gellir defnyddio'r manylion uchod i gysylltu â hi. Nodwch bob gohebiaeth at sylw'r Swyddog Diogelu Data

### **Eich data personol - diffiniad**

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn diffinio data personol fel " *unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn naturiol a enwir neu y gellir ei adnabod ('gwrthrych y data');* mae unigolyn naturiol y gellir ei adnabod yn rhywun y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeiriad at fanylyn megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, manylion adnabod ar-lein, neu un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol yr unigolyn naturiol hwnnw'.

Felly mae data personol yn golygu unrhyw wybodaeth am unigolyn byw sy'n galluogi iddynt gael eu hadnabod o'r data hynny (er enghraifft enw, lluniau, fideos, cyfeiriad e-bost neu gyfeiriad). Gellir adnabod unigolyn yn uniongyrchol yn defnyddio'r data eu hunain neu drwy eu cyfuno â gwybodaeth arall sy'n helpu i adnabod unigolyn byw.

## **Y data y gallwn eu casglu amdanoch chi**

Mae'r rhan fwyaf o wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu yn cael ei rhoi i ni'n uniongyrchol gennych chi am un o'r rhesymau canlynol:

- Rydych wedi gwneud cwyn neu ymholiad i ni.
- Rydych wedi gwneud cais am wybodaeth gennym,
- Rydych am fod yn bresennol, neu wedi bod yn bresennol mewn digwyddiad.
- Rydych wedi ymgeisio am swydd, secondiad neu swydd wirfoddol gyda ni.
- Rydych yn cynrychioli eich sefydliad.
- Rydych wedi cyflwyno cais am gyllid

Rydym hefyd yn derbyn gwybodaeth bersonol yn anuniongyrchol, yn y sefyllfaoedd canlynol:

- Oddi wrth ffigyrau cyhoeddus megis AS neu gynrychiolydd cyfreithiol sy'n cysylltu â ni ar eich rhan.
- Mae achwynwr yn cyfeirio atoch chi yn ei ohebiaeth am ei gŵyn.
- Wrth ymdrin â Heddlu Gwent mewn perthynas â chwyn rydych wedi ei gwneud i ni amdanynt.
- Wrth i gontractau gael eu cymeradwyo a'u llofnodi (mae pob contract yn cael ei ddarparu yn enw'r Comisiynydd ond mae'r gwaith yn cael ei gwblhau a'i reoli wedyn gan Heddlu Gwent)
- Mae chwythwyr chwiban yn cynnwys gwybodaeth amdanoch chi wrth riportio i ni.
- Oddi wrth reoleiddwyr neu gyrff eraill sy'n gorfodi'r gyfraith
- Mae un o'n gweithwyr yn rhoi eich manylion cyswllt fel cyswllt mewn argyfwng neu ganolwr.
- Lluniau ohonoch mewn digwyddiadau.

Os nad yw prosesu eich gwybodaeth bersonol yn anghymesur neu'n niweidiol, byddwn yn cysylltu â chi i'ch hysbysu ein bod yn ei phrosesu.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen i Swyddfa'r Comisiynydd gael 'Categoriâu Arbennig o Ddata Personol' megis gwybodaeth sy'n ymwneud ag:

- Iechyd
- Euogfarnau troseddol
- Tarddiad hiliol neu ethnig
- Barn wleidyddol
- Crefydd neu gredoau athronyddol
- Aelodaeth o blaid lafur
- Cyfeiriadedd rhywiol

## **Y sail gyfreithiol dros brosesu eich data personol**

Ni fydd Swyddfa'r Comisiynydd yn prosesu eich gwybodaeth oni bai bod ganddo sail gyfreithiol dros wneud hynny, fel yr amlinellir yn y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys:

- **Cydsyniad:** mae'r unigolyn wedi rhoi cydsyniad clir i chi brosesu ei ddata personol at ddiben penodol.
- **Contract:** mae angen prosesu ar gyfer contract sydd gennych gyda'r unigolyn, neu oherwydd ei fod wedi gofyn i chi gymryd camau penodol cyn ymrwymo i gontract.
- **Rhwymedigaeth gyfreithiol:** mae angen prosesu er mwyn i chi gydymffurfio â'r gyfraith (heb gynnwys rhwymedigaethau dan gytundeb).
- **Buddiannau hanfodol:** mae angen prosesu er mwyn amddiffyn bywyd rhywun.
- **Tasg gyhoeddus:** mae angen prosesu er mwyn i chi gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth gyflawni eich awdurdod swyddogol, ac mae gan y dasg neu awdurdod sail gyfreithiol glir.
- **Buddiannau cyfreithiol:** mae angen prosesu er mwyn eich buddiannau cyfreithiol chi neu fuddiannau cyfreithiol trydydd parti oni bai bod rheswm da i amddiffyn data personol yr unigolyn sy'n drech na'r buddiannau cyfreithiol hynny. (Nid yw hyn yn berthnasol os ydym yn prosesu data i gyflawni ein tasgau swyddogol.)

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd y wybodaeth rydym yn ei phrosesu amdanoch yn dod o dan ein 'rhwymedigaeth gyfreithiol' megis pan fyddwch yn ymgeisio am swydd gyda ni, 'contract' pan fyddwch yn ymrwymo i gontract â Swyddfa'r Comisiynydd neu Heddlu Gwent neu drwy gyfrwng 'cydsyniad' megis pan fyddwch yn cysylltu â ni ynghylch cwyn, i wneud cais am gyllid neu i fod yn bresennol mewn digwyddiad megis cymhorthfa gyhoeddus. Byddwn yn cael cydsyniad gennych os ydym yn defnyddio delwedd y gellir eich adnabod ohoni mewn unrhyw lun ohonoch mewn digwyddiad.

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith diogelu data, Mae'r gyfraith hon yn dweud bod rhaid i'r data personol rydym yn eu cadw amdanoch chi gael eu defnyddio yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- Dylid eu prosesu mewn ffordd gyfreithlon, deg a thryloyw.
- Dylid eu prosesu at ddibenion dilys, yr ydym wedi eu hesbonio'n glir i chi, yn unig ac ni ddylid eu defnyddio mewn unrhyw ffordd sy'n anghymharus â'r dibenion hynny.
- Dylent fod yn berthnasol i'r dibenion rydym wedi dweud wrthyach amdanynt ac yn gyfyngedig i'r dibenion hynny yn unig.
- Dylid eu cadw'n gywir ac yn gyfredol.
- Ni ddylid eu cadw am gyfnod hwy na'r hyn sydd ei angen at y dibenion rydym wedi dweud wrthyach chi amdanynt.
- Dylid eu cadw a'u distrywio yn ddiogel gan gynnwys sicrhau bod mesurau technegol a mesurau diogelwch priodol ar waith i ddiogelu eich data personol rhag cael eu colli, eu camddefnyddio, rhag i unrhyw un gael mynediad heb awdurdod atynt a rhag datgeliad.

## Rhannu eich data personol

Gallwn ddefnyddio sefydliadau eraill fel prosesyddion data i ddarparu elfennau o wasanaethau ar ein cyfer. Mae gennym gontractau neu Gytundebau Rhannu Gwybodaeth ar waith i sicrhau bod pob deddfwriaeth diogelu data'n cael ei bodloni mewn perthynas â rhannu eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn golygu na allant wneud unrhyw beth gyda'ch gwybodaeth bersonol oni bai ein bod wedi rhoi cyfarwyddyd iddynt wneud hynny. Ni fyddant yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gydag unrhyw sefydliad ar wahân i ni. Byddant yn ei dal yn ddiogel ac yn ei chadw am y cyfnod rydym yn gorchymyn.

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth ag unrhyw drydydd partion at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Er mwyn ymlynu wrth ein rhwymedigaethau cyfreithiol a bodloni ein cyfrifoldeb i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, mae angen i ni weithio â sefydliadau partner yn aml.

I sicrhau bod ein partneriaethau'n gweithio'n effeithiol, efallai y bydd angen i ni rannu eich gwybodaeth bersonol a sensitif gydag awdurdodau a phartneriaid eraill megis:

- Heddlu Gwent
- Awdurdodau lleol
- Y Swyddfa Gartref
- Grwpiau cymunedol
- Elusennau
- Endidau dielw eraill
- Contractwyr
- Asiantaethau cyflogaeth
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu
- Archwilwyr mewnol ac allanol
- Cydbwyllgor Archwilio

Efallai y bydd achlysuron hefyd pan fydd angen i ni rannu eich gwybodaeth bersonol er mwyn diogelwch y cyhoedd, megis:

- Ar gyfer ymchwilio, canfod ac atal trosedd.
- Lle y mae dyletswydd gyfreithiol i rannu'r wybodaeth a bod pwysigrwydd gwneud hynny'n drech na phwysigrwydd cyfrinachedd
- Os oes peryglon difrifol i'r cyhoedd, ein staff neu weithwyr proffesiynol eraill.
- I amddiffyn plant neu oedolion bregus
- Mae buddiannau cyhoeddus sy'n drech na'r ddyletswydd o gyfrinachedd.

Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau penodol hefyd lle y mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i rannu gwybodaeth megis mewn perthynas ag ymdrin â chwynion.

### **Am ba hyd ydym ni'n cadw eich data personol?**

Mae eich data personol yn cael eu cadw'n unol â'n [hamserlen cadw](#).

### **Eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol**

O dan gyfraith diogelu data, mae gennych chi hawliau y mae angen i ni eich gwneud yn ymwybodol ohonynt. Mae'r hawliau sydd ar gael i chi'n dibynnu ar ein rheswm dros brosesu eich gwybodaeth.

### Eich hawl i fynediad

Mae gennych hawl i ofyn i ni am gopiâu o'ch gwybodaeth bersonol. Mae'r hawl hon yn berthnasol bob amser. Mae rhai eithriadau sy'n golygu efallai na fyddwch bob amser yn derbyn yr holl wybodaeth rydym yn ei phrosesu. [Gallwch ddarllen mwy am yr hawl hon yma.](#)

### Eich hawl i gywiriad

Mae gennych hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth rydych chi'n credu sy'n anghywir. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i ni gwblhau gwybodaeth rydych chi'n credu sy'n anghyflawn. Mae'r hawl hon yn berthnasol bob amser. [Gallwch ddarllen mwy am yr hawl hon yma.](#)

### Eich hawl i ddileu

Mae gennych hawl i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau. [Gallwch ddarllen mwy am yr hawl hon yma.](#)

### Eich hawl i rwystro prosesu

Mae gennych hawl i ofyn i ni rwystro eich gwybodaeth rhag cael ei phrosesu mewn rhai amgylchiadau. [Gallwch ddarllen mwy am yr hawl hon yma.](#)

### Eich hawl i wrthwynebu prosesu

Mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu os ydym yn gallu prosesu eich gwybodaeth oherwydd bod y broses yn rhan o'n tasgau cyhoeddus, neu o fewn ein buddiannau cyfreithiol. [Gallwch ddarllen mwy am yr hawl hon yma.](#)

### Eich hawl i symudedd data

Dim ond ar gyfer gwybodaeth rydych wedi ei rhoi i ni mae hyn yn berthnasol. Mae gennych hawl i ofyn i ni drosglwyddo'r wybodaeth rydych wedi ei rhoi i ni o un sefydliad i un arall, neu ei rhoi i chi. Nid yw'r hawl yn berthnasol oni bai ein bod yn prosesu gwybodaeth sy'n seiliedig ar eich cydsyniad neu o dan gontract gyda chi neu mewn trafodaethau am ymrwymo i gontract gyda chi ac mae'r prosesu'n awtomatig. [Gallwch ddarllen mwy am yr hawl hon yma.](#)

## **Cadw eich gwybodaeth yn ddiogel**

Rydym wedi ymroi i sicrhau bod eich data personol yn ddiogel. Er mwyn atal mynediad heb awdurdod neu ddatgeliad, rydym wedi rhoi gweithdrefnau ffisegol, electronig a rheoli ar waith i ddiogelu'r wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch chi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mannau gwaith diogel
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch gwybodaeth i staff
- Rheolyddion mynediad ar bob system

- Data personol wedi'u hamgryptio
- Profion systemau TG

## **Trosglwyddiadau y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd**

Nid ydym yn rhannu gwybodaeth bersonol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn rheolaidd. Gellir trosglwyddo data'n rhwydd i'r gwledydd hynny sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd fel gwledydd sydd â chyfreithiau preifatrwydd data digonol, gan gynnwys pob aelod-wladwriaeth o'r UE, Ariannin, Canada, Swistir, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw, Israel a Seland Newydd.

Rhaid i drosglwyddiad data personol i wlad sydd y tu hwnt i'r rhai sydd wedi eu cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd fodloni safonau llym iawn. Os nad yw'r safonau hynny ar waith ni fyddwn yn defnyddio'r gwasanaethau.

Mewn amgylchiadau prin iawn lle y gall eich gwybodaeth bersonol fod wedi cael ei throsglwyddo y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, cewch eich hysbysu ymlaen llaw, ar yr amod nad yw hynny'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol a orfodir arnom..

## **Newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn**

Rydym yn adolygu ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyfredol a chywir.

## **Os ydych yn anfodlon**

Rydym yn pennu safonau uchel iawn ar gyfer casglu a defnyddio data personol yn briodol ac rydym yn ystyried unrhyw gwynion yn ddifrifol iawn. Hoffem i chi dynnu ein sylw at unrhyw ddigwyddiad lle rydych yn credu bod y defnydd o ddata'n annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol. Rydym yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella hefyd. Cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd i ddechrau.

Os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl cysylltu â'n Swyddog Diogelu Data, gallwch wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru  
2<sup>il</sup> Lawr, Tŷ Churchill  
Ffordd Churchill  
Caerdydd  
CF10 2HH

Ffôn: 01625 545297

Ffacs: 029 2067 8399

E-bost: [wales@ico.org.uk](mailto:wales@ico.org.uk)